

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

15th Hydref 2021

Annwyl Mark

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – gohebiaeth y Bumed Senedd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf. Rwy'n gobeithio eich bod chi a'ch cyd-aelodau o'r Pwyllgor yn teimlo bod y cyfarfod rhagarweiniol ar 20 Medi gyda Chyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth Cymru yn un cynhyrchiol.

Rydym yn gwerthfawrogi adroddiadau'r Pwyllgor yn fawr iawn, ac ar gais Pumed Pwyllgor y Senedd rwy'n ysgrifennu atoch i roi ymatebion i chi i adroddiadau a gohebiaeth derfynol y Pwyllgor hwnnw.

Mae'r atodiadau canlynol yn ymateb yn unol â hynny i:

- Atodiad 1 – Craffu ar Gyfrifon 2019-20 – Llywodraeth Cymru
- Atodiad 2 – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd
- Atodiad 3 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru – 22 Mawrth 2021

Rwyf wedi croesawu gwaith craffu adeiladol y Pwyllgor yn ystod fy nghyfnod fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ac rwy'n siŵr y bydd y Pwyllgor yn parhau â'i waith rhagorol yn nhymor newydd y Senedd.



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel 03000258289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

yu gywir,

Shan Morgan

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Atodiad 1

CRAFFU AR GYFRIFON 2019-20 – LLYWODRAETH CYMRU

Diolch am yr adroddiad yn dilyn y gwaith craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon blynyddol 2019-20 Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi ystyried pob un o'r argymhellion, ac mae fy ymatebion wedi'u nodi fel a ganlyn:

Argymhelliad 1. Er ein bod yn cydnabod y rhwystrau ymarferol i gyhoeddi pob adroddiad ariannol ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn anelu at gyhoeddi'r dogfennau hyn naill ai ar yr un pryd neu mor agos â phosibl at ei gilydd. Yn benodol, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad ar alldro cyn gynted â phosibl ar ôl gosod ei chyfrifon bob blwyddyn a chyn y sesiynau Craffu ar y Cyfrifon.

Derbyn

Mae'r adroddiadau a nodir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru Rhan 1 fel Adroddiadau Allweddol i gyd yn cael eu cynhyrchu ar sail ystod o ffynonellau, neu maent yn destun gofynion adrodd penodol sy'n pennu eu hamseriad.

Y Gyllideb

Caiff cyhoeddiadau Cyllideb Llywodraeth Cymru eu cynhyrchu yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac effeithir arnynt gan amserlenni'r Gyllideb a'r Adolygiad o Wariant a bennir gan Drysorlys EM

Adroddiad ar Alldro

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cyhoeddi'r adroddiad ar alldro ar gyfer y flwyddyn flaenorol o fewn 3 wythnos i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r adroddiad ar alldro yn dibynnu ar gwblhau'r archwiliad statudol blynyddol.

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru

Mae Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yn adroddiad Gweinidogol ar gynnydd tuag at yr amcanion llesiant ac nid yw'n adroddiad ariannol. Mater i Weinidogion Cymru yw amseriad, cwmpas a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

Adroddiad Llesiant Cymru

Mae adroddiad blynyddol Llesiant Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd y mae'r wlad yn ei wneud tuag at ei nodau llesiant. Mae'n ymwneud â chynnydd cyfunol Cymru fel gwlad ac nid yw'n adroddiad ar berfformiad sefydliad unigol.

Fel arfer, cyhoeddir yr Adroddiad ym mis Medi bob blwyddyn, fel bod modd cynnwys data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn y flwyddyn ddiweddaraf.

Gan mai cyhoeddiad Ystadegau Swyddogol ydyw, y Prif Ystadegydd sy'n pennu cynnwys ac amseriad adroddiad Llesiant Cymru, yn unol â'r cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae'r Cod yn nodi y dylid rhyddhau ystadegau cyn gynted ag yr ystyrir eu bod yn barod.

Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

Mae'n ofynnol cynhyrchu Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol o fewn 12 mis i etholiad ac mae'n nodi tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a gwybodaeth ddadansoddol gysylltiedig. Mae cynhyrchu'r adroddiad yn gysylltiedig ag amseru etholiadau ac argaeledd gwybodaeth ystadegol. Disgwylir i'r adroddiad nesaf gael ei gyhoeddi fis Rhagfyr 2021.

Argymhelliad 2. Er budd tryloywder, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion yn flynyddol ynghylch sut mae penderfyniadau wedi'u gwneud o ran cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Hoffem weld y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu arni cyn i'r cyfrifon gael eu paratoi. Rydym yn awyddus i glywed barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw hyn yn bosibl o fewn cyfyngiadau amser unrhyw newidiadau i'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a'r gwaith o baratoi'r cyfrifon.

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at roi diweddariad o'r fath i'r Pwyllgor o 2021-22 ymlaen. Fodd bynnag, er bod y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol fel arfer yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi'r cyfrifon o'r mis Ebrill canlynol ymlaen, nid yw'n anghyffredin i ychwanegiadau neu ganllawiau ychwanegol gan Drysorlys EM gael eu cyhoeddi drwy gyfnod paratoi'r cyfrifon - yn wir ar gyfer cylch 2020-21 cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ym mis Mai 2021. Felly, dim ond adlewyrchu'r sefyllfa ar y dyddiad hwnnw y bydd unrhyw ddiweddariad a roddir i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu amserlen wedi'i diweddaru inni ar gyfer cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau 2019-20.

Derbyn

Oherwydd pwysau ar ein busnes yn sgil delio ag effaith y pandemig Covid-19, ni ddarparwyd adroddiad grantiau 2019-20 i'r Pwyllgor tan fis Mawrth 2021. Fodd bynnag, o 2020-21 ymlaen bydd yr adroddiad grantiau unwaith eto yn rhan annatod o'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Argymhelliad 4. Yn sgil barn amodol ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru, rydym yn croesawu ystyriaeth y Bwrdd Cyngori ar Adroddiadau Ariannol o ddehongli Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn). Rydym yn argymhell bod canlyniadau'r ystyriaethau hyn, gan gynnwys unrhyw ganllawiau newydd, yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ochr yn ochr â manylion gwersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru a sut y bydd y rhain yn cael eu hymgorffori mewn prosesau ariannol yn y dyfodol.

Derbyn

Yn dilyn trafodaeth yn y Bwrdd Cyngori ar Adroddiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau ychwanegol ym mis Mai 2021 ar gymhwyso Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol) ar gyfer cyfrifyddu gan roddwyr grantiau yn y sector cyhoeddus¹.

Mae canllawiau Trysorlys EM yn ddefnyddiol o ran nodi'r materion i'w hystyried o safbwynt cyfrifyddu gan roddwyr grantiau ac IAS37, ond roedd y canllawiau a gyhoeddwyd yn amhendant ac nid ydynt yn rhagnodi triniaeth a fyddai'n effeithio ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y canllawiau ychwanegol ac wedi dod i'r casgliad nad yw ein safbwynt ar gymhwyso IAS37 wedi newid.

Cafodd y canllawiau ychwanegol a chasgliadau swyddogion Llywodraeth Cymru eu hystyried gan Bwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf.

Nid ydym yn rhag-weld unrhyw ganllawiau pellach gan yr FRAB ar IAS37 a chyfrifyddu gan roddwyr grantiau yn y dyfodol rhagweladwy

¹https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/984519/IAS_37_and_Grantor_Accounting_Application_Guidance.pdf

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n esbonio'r amrywiannau rhwng y gyllideb a'r alldro, fel yr adroddwyd yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau. Dylai hyn ddefnyddio iaith glir i egluro gwahanol elfennau'r gyllideb a'r alldro yn eu herbyn. Dylai hefyd egluro goblygiadau tanwariant i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn Cymru) a darparu'r gwasanaethau a ddarperir.

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio gwella eglurder yr esboniadau a ddarperir yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau. Yn anffodus, hyd nes y bydd y cyfrifon wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo gan Archwilio Cymru, ni allwn gwblhau'r sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn ac felly'r balans wrth gefn. Am y rheswm hwn darperir rhagor o wybodaeth am yr alldro terfynol mewn adroddiad ar wahân a gyhoeddir o fewn tair wythnos i osod y cyfrifon blynyddol.

Argymhelliad 6. Barn y Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru ddangos esiampl o ran ei dull o adrodd ar berfformiad. Rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei pherfformiad yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei Hadroddiad Blynyddol. Dylai hyn adlewyrchu arfer gorau o ran cynnwys a chyflwyno'r wybodaeth hon.

Cafwyd rhagor o ohebiaeth ynghylch y Dangosyddion Perfformiad Allweddol gyda'r Pwyllgor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn; gweler Atodiad 3 sy'n trafod y Fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn darparu diweddariad am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu'r Dangosyddion ac yn darparu'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

Cafwyd rhagor o ohebiaeth ynghylch y Dangosyddion Perfformiad Allweddol gyda'r Pwyllgor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn; gweler Atodiad 3 sy'n trafod y Fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y papurau a lywiodd ei phenderfyniad i ddod â'r archwiliad allanol o hawliadau grant awdurdodau lleol i ben, ei gwerthusiad o'r peilot gydag Archwilio Cymru a'i hasesiad risg o'r penderfyniad.

Derbyn

Roedd y penderfyniad yn seiliedig ar drafodaethau gydag Archwilio Cymru ynghylch natur ansylweddol canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed hyd yn hyn, ac a oedd yn rhesymol ai peidio i roi baich gwaith archwilio ychwanegol ar Lywodraeth Leol yn unig. Rheolir cynlluniau grant gan swyddogion polisi yn seiliedig ar y telerau ac amodau rhwymol sy'n cwmpasu'r hyn y gellir ei gyflawni, y canlyniadau a'r mecanweithiau talu. Mae'r dull hwn yn cael ei gymhwyso i bob un o'r rhai sy'n derbyn grant yn y trydydd sector, y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Wrth ddileu'r angen am waith archwilio ychwanegol, y cyfan y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yw defnyddio dull cyson o ymdrin â phob cynllun grant.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y mae'n cael y sicrwydd gofynnol ynghylch cyllid grant i awdurdodau lleol yn dilyn y penderfyniad i gael gwared ar y gofyniad am archwiliad. Dylai hyn egluro sut y bydd y datganiad blynyddol gan Swyddogion Adran 151 yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'w hardystiad o hawliadau grant unigol.

Derbyn

Rhaid i bob grant neilltuedig fanylu ar y telerau ac amodau sy'n gyfreithiol rwymol megis y cyraeddiadau, y canlyniadau a'r dulliau talu sy'n ofynnol gan dderbynnydd y grant. Nid yw hyn yn wahanol ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat. Yna defnyddir y telerau ac amodau hyn gan swyddogion polisi i fonitro cynnydd a chytuno ar daliadau carreg filltir. Rôl y swyddog Adran 151 yw cadarnhau bod y gwariant a dderbyniwyd wedi'i ddefnyddio at y dibenion y cytunwyd arnynt ac yn unol â thelerau ac amodau cyfreithiol rwymol y grant. Drwy wneud hynny, mae'n ategu'r trefniadau monitro arferol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10. Nodwn y gwendidau a nodwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mentrau rheoli'r gweithlu. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ymdriniwyd â'r gwendidau hyn.

Derbyn

Lwfans Dyletswyddau Dros Dro

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n cydweithwyr ar Ochr yr Undebau Llafur (TUS) i gytuno ar strategaeth i reoli nifer y staff sy'n derbyn Lwfansau Dyletswydd Dros Dro (TDA) yn y sefydliad, i lefel yr ydym yn fwy cyfforddus â hi. Mae nifer y lwfansau wedi bod yn uwch nag yr hoffwn i yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ein bod wedi ceisio rheoli ein hadnoddau'n ofalus o fewn ein cyfyngiadau cyllidebol, ac wedi cyfyngu ar ein gweithgarwch recriwtio.

Mae Covid hefyd wedi effeithio'n sylweddol ar ein cynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Fel sefydliad, roedd angen yr hyblygrwydd arnom i symud adnoddau'n gyflym i rolau blaenoriaeth dros dro yn y meysydd lle'r oedd yr angen mwyaf. Mae'r defnydd o Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro yn y modd hwn wedi bod yn briodol yn unol â'r polisi, ac wedi cynnig mwy o ystwythder i ni wrth ddelio â'r materion uniongyrchol oedd yn ein hwynebu ar y pryd. Wrth symud ymlaen, fy nod yw lleihau'n sylweddol yr angen am lwfansau, yn enwedig rhai tymor hwy dros 6 mis. Mae'r pyrth dyrchafu mewnol wedi ein galluogi i ddechrau'n gryf ar hyn gyda 90 o staff ar draws y graddau SEO a G7 (51 SEO a 39 G7), a oedd yn derbyn Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro wedi llwyddo i gael eu dyrchafu i swyddi ar radd uwch, gan ddileu'r angen am lwfans. Disgwyliwn i'r sefyllfa hon wella ymhellach wrth i'r pyrth recriwtio barhau drwy'r graddau yn y sefydliad.

Rydym wedi ymrwmo i weithio'n agos gyda TUS i gytuno ar opsiynau pellach i reoli Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro, o gynlluniau ymadael ar gyfer y rhai sydd wedi bod yn cael lwfansau am gyfnod sylweddol, a pholisi diwygiedig gyda threfniadau llywodraethiant llymchwr wrth gymeradwyo lwfansau tymor hwy.

Secondiadau

Mae'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion ar yr Archwiliad Secondiadau wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Y bwriad oedd iddynt fod yn rhan o'r broses o weithredu'r adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol, fodd bynnag, mae'r symud adnoddau a'r ffocws ar ymdrin â materion sy'n ymwneud â Covid wedi atal yr adolygiad rhag cael ei gwblhau'n llawn. Rwy'n falch o ddweud, fodd bynnag, ein bod wedi cryfhau ein dull o ymdrin â secondiadau yn ddiweddar drwy adnoddau ychwanegol. Mae hyn yn golygu bod un tîm bellach yn goruchwyllo secondiadau, mae'r broses wedi'i symleiddio a cheir mecanweithiau cymeradwyo clir, rydym wedi gwella ein trefniadau contract drwy lunio dogfennau safonol ac mae trefniadau adrodd gwell ar waith. Rwy'n llawn ddisgwyl i unrhyw gamau sy'n weddill gael eu cwblhau yn ystod y misoedd nesaf, wrth i'r tîm weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac Ochr yr Undebau Llafur i weithredu'r argymhellion.

Gweithwyr Asiantaeth

Gwnaed cynnydd o ran yr Archwiliad Weithwyr Asiantaeth. Cyhoeddwyd polisi newydd ym mis Mawrth 2021 i adlewyrchu argymhellion adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac mae wedi cryfhau'r meysydd canlynol yn benodol:

- Cymeradwyaeth gan y cyfarwyddwr Adnoddau Dynol cyn penodi ac ôl lleoliad 12 wythnos;
- y dyddiad arfaethedig ar gyfer diwedd y contract, a thystiolaeth bod cydweithwyr wedi ceisio llenwi'r swydd yn fewnol.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod agendâu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru, ynghyd â chrynodeb priodol o faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd, yn cael eu cyhoeddi fan lleiaf.

Derbyn

Cytunwyd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) y bydd agendâu ARAC Llywodraeth Cymru a chrynodeb o'r materion dan sylw yn cael eu cyhoeddi, gan ddechrau o'r cyfarfod nesaf.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus werthusiad o'r adolygiad peilot o'r Llyfrgell Genedlaethol a sylwadau ar unrhyw wersi a ddysgwyd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi amserlenni ar gyfer adolygiadau gwerthuso Cyrff Hyd Braich eraill a manylion am sut y defnyddiwyd dull seiliedig ar risg i bennu trefn blaenoriaeth yr adolygiadau hyn.

Derbyn

Bydd swyddogion yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn cynnal gwerthusiad o'r Adolygiad Pwrpasol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys ymarferiad gwersi a ddysgwyd. Bydd canlyniadau'r ymarferiadau hyn yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio amserlen a fydd yn nodi manylion yr holl Adolygiadau Pwrpasol o Gyrff Hyd Braich yng Nghymru, sydd o fewn cylch gwaith yr Uned Cyrff Cyhoeddus dros gyfnod o 5 mlynedd y Llywodraeth newydd. Defnyddir nifer o ffynonellau tystiolaeth wrth ddatblygu'r amserlen hon, gan gynnwys trafodaeth gyda Thimau Partneriaeth, a dadansoddi Model Sicrwydd sy'n seiliedig ar Risg. Mae'n werth nodi y bydd angen rhaglen gytbwys o adolygiadau dros y cylch 5 mlynedd i gwblhau'r rhaglen yn effeithiol.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar yr amserlenni ar gyfer gwerthuso'r Uned Cyrff Cyhoeddus a'i fod yn derbyn copi o unrhyw adroddiad a chasgliadau.

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am amseriad y gwerthusiad o'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a bydd yn rhannu canlyniad y gwerthusiad hwnnw gyda'r Pwyllgor.

Mae gwaith paratoi ar y gwerthusiad hwnnw wedi dechrau, a bydd yn cynnwys barn y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus a Thimau Partneriaeth Llywodraeth Cymru.

Atodiad 2

Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS: Y BUMED SENEDD – ADRODDIAD GWADDOL

Diolch am Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd. Rwy'n croesawu canfyddiadau'r adroddiad hwn, ac rwy'n darparu'r ymatebion canlynol i'r ddau argymhelliad sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru o fewn 15 diwrnod gwaith, er mwyn llywio penderfyniadau'r Pwyllgor ynghylch sut i flaenoriaethu ei waith, yn unol â'r protocol presennol.

Derbyn

Rydym wedi atgoffa swyddogion o'r angen i ymateb i adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru o fewn 15 diwrnod a byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â'r targed hwn cyn belled ag y bo modd.

Ar adegau, oherwydd cymhlethdod yr argymhelliad a'r angen i gael cyfraniadau lluosog i'r argymhelliad, mae'n bosibl y bydd y targed 15 diwrnod yn her i'w gyflawni. Mewn sefyllfa o'r fath, byddwn yn ymateb i'r Archwilydd Cyffredinol o fewn 15 diwrnod, gan amlinellu'r cynnydd a wnaed a phryd y disgwyliwn allu anfon yr ymateb

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i argymhellion ein Pwyllgor olynol drwy nodi naill ai 'derbyn' neu 'gwrthod'.

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i'r argymhellion gyda naill ai ymateb 'derbyn' neu ymateb 'gwrthod'. Rydym wedi atgoffa swyddogion o'r angen i ymateb fel hyn.

Atodiad 3

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru - 22 Mawrth 2021²

Cymerodd eich Pwyllgor blaenorol gryn dipyn o ddiddordeb yn y gwaith yr oeddwn wedi'i roi ar y gweill i ddatblygu system o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Ymdriniodd y Pwyllgor â hwy mewn llythyr ar 21 Mawrth yn ogystal ag mewn argymhellion penodol yn eu hadroddiad gwaddol a'u hadroddiadau ar gyfrifon.

Mae'r gwaith ar y system wedi mynd rhagddo'n sylweddol ers y tro diwethaf imi roi diweddariad i'r Pwyllgor, ac mae ein cyfrifon blynyddol yn cynnwys amlinelliad lefel uchel o'r system fel y mae ar hyn o bryd. Nid ydym wedi rhoi'r holl ddata cefndir yn y cyfrifon eu hunain, yn rhannol oherwydd y byddai gwneud hynny'n cymryd cryn dipyn o le, ac yn rhannol oherwydd bod rhywfaint o'r data a ddefnyddir gennym yn gyfrinachol neu ddim yn addas i'w wneud yn gyhoeddus am resymau eraill. Gallwn rannu'r holl ddata gyda'r Pwyllgor os yw'r Pwyllgor yn dymuno ei weld, ond byddai angen inni wneud hynny ar y sail ei fod yn cael ei drin fel dogfen gyfrinachol ac nad yw'n cael ei rannu ymhellach.

At hynny, wrth gwrs, bydd fy olynydd Andrew Goodall am ystyried a yw hwn yn ddull y mae am barhau ag ef a'i ddatblygu ymhellach, gan ymgynghori â'r Prif Weinidog. Rwy'n siŵr y bydd Andrew yn cadw mewn cof y pwyntiau y mae'r Pwyllgor wedi'u mynegi wrthyf am y system hon, ac y bydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau.

² [Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru - 22 Mawrth 2021.pdf \(senedd.cymru\)](#)